Archwilio Cymru
Audit Wales

Trefniadau Gwrth-dwyll

Cydbwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru

Hydref 2026

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	11
Atodiadau	14
1 Ynglŷn â'n gwaith	15
2 Gwybodaeth gefndir am Gydbwyllgorau Corfforedig	17

Cipolwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn 2020, fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru 15 o argymhellion yn ei adroddiad, Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, a hynny er mwyn gwella'r ffordd y mae sector cyhoeddus Cymru'n mynd i'r afael â thwyll. Er nad oedd Cydbwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru (y Cydbwyllgor Corfforedig) yn bodoli bryd hynny, fe wnaethom ystyried yr adroddiad hwn a'i argymhellion i fwrw golwg ar drefniadau'r Cydbwyllgor Corfforedig i atal a chanfod twyll.

Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae'r risg o dwyll yn fygythiad mwyfwy cyffredin i bron pob rhan o fywyd o ddydd i ddydd. Mae'r risg o dwyll yn amlwg ar draws pob agwedd ar y sector cyhoeddus. Mae trefniadau gwrth-dwyll cryf yn helpu corff cyhoeddus i ddiogelu ei arian a chynnal hyder y cyhoedd yn y modd y mae'n rheoli adnoddau. Mae trefniadau gwrth-dwyll effeithiol yn helpu corff cyhoeddus i atal colled ariannol a niwed i'w enw da. Maent hefyd yn helpu i ddangos ei fod yn atebol ac y gellir ymddiried ynddo.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

3 Canfuom fod gan Gydbwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru (y Cydbwyllgor Corfforedig) rai rheolaethau a ffynonellau sicrwydd gwrth-dwyll pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys bod â strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), a bod â mynediad at gymorth archwilio mewnol a gwrth-dwyll arbenigol. Fodd bynnag, nid yw ei fframwaith gwrth-dwyll ar y cyfan wedi datblygu ddigon, gan ei fod heb nifer o elfennau allweddol a ddisgwylir mewn trefniadau gwrth-dwyll aeddfed.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

4 Fe wnaethom saith argymhelliad sef, yn gryno:

- adolygu ei strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth;
- datblygu asesiad, cynllun gweithredu, rhaglen waith a chynllun ymateb ar gyfer y risg o dwyll;
- cryfhau ei drefniadau llywodraethu gwrth-dwyll;
- eglurhau rôl a chyfrifoldebau'r tîm Twyll Corfforaethol;
- gwneud yn siŵr bod holl aelodau'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cyflwyno ffurflenni cofrestru buddiannau priodol ac amserol;
- gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll cymesur; a
- rhoi digon o ystyriaeth a honno'n ystyriaeth gymesur i atal a chanfod twyll wrth recriwtio.

Ein canfyddiadau

Mae gan y Cydbwyllgor Corfforedig rai rheolaethau gwrth-dwyll pwysig ond mae bylchau yn ei drefniadau'n golygu nad oes ganddo ddull systemig o atal a chanfod twyll

Arweinyddiaeth, Diwylliant a Hyfforddiant

5 Mae gan y Cydbwyllgor Corfforedig strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth (y strategaeth) sy'n nodi'n glir nad yw'n goddef twyll o gwbl. Fe wnaeth y Cydbwyllgor Corfforedig hyrwyddo'r strategaeth hon a negeseuon gwrth-dwyll ehangach i'w staff yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Dwyll ym mis Tachwedd 2025. Mae'r gweithgarwch yma'n helpu i ddangos i staff bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn ymrwymedig i atal a chanfod twyll.

6 Fodd bynnag, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo sy'n briodol i'w rôl. Yr unig hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig â thwyll yw hyfforddiant seiberddiogelwch, ac mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cadw cofnodion o bwy sy'n ei gwblhau. Mae hyn yn darparu sicrwydd y gall fonitro cyfraddau cwblhau staff. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant seiberddiogelwch yn unig yn cwmpasu'r risgiau ehangach o dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo sy'n berthnasol i'r Cydbwyllgor Corfforedig. Byddai darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll rheolaidd a chymesur yn atgyfnerthu dull dim goddefgarwch y Cydbwyllgor Corfforedig o ymdrin â thwyll ac yn atgoffa staff am eu cyfrifoldebau i helpu i warchod rhag y risgiau hyn.

7 Mae'r tîm cyllid yn cael diweddariadau ymwybyddiaeth o dwyll rheolaidd gan Barclays Bank a gwahoddiadau rheolaidd i weminarau ar dwyll. Mae'r rhain yn darparu arweiniad allanol defnyddiol ynghylch atal a chanfod twyll a all helpu i oleuo rheolaethau mewnol y Cydbwyllgor Corfforedig.

8 Nid yw camau gwirio cyn cyflogi'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cynnwys ffocws penodol ar atal a chanfod twyll. Byddai cyflwyno gwiriadau gwrth-dwyll cymesur ar gyfer rolau â mwy o risg o dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo yn gallu cryfhau trefniadau ataliol y Cydbwyllgor Corfforedig.

Polisïau

9 Mae gan y Cydbwyllgor Corfforedig nifer o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ategu ei strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ei bolisi Chwythu'r Chwiban, datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch, a chodau ymddygiad ar gyfer staff ac aelodau etholedig. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer safbwynt dim goddefgarwch y Cydbwyllgor Corfforedig ynglŷn â thwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo.

10 Fodd bynnag, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi rhoi llawer o'r trefniadau a nodir yn y Strategaeth hon ar waith. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymgorffori trefniadau gwrth-dwyll yn ei raglen sefydlu; adrodd yn flynyddol ar drefniadau gwrth-dwyll; asesiad risg twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth; a rhaglen waith ar y risg o dwyll. Mae hyn yn lleihau effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll y Cydbwyllgor Corfforedig ac yn tanseilio ei safbwynt dim goddefgarwch.

11 Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl swyddogion ac aelodau ar ei Fyrddau a Phwyllgorau gyflwyno ffurflen cofrestru buddiannau flynyddol. Ond nid yw'r holl ffurflenni'n ymwneud yn benodol â'r Cydbwyllgor Corfforedig. Ar gyfer nifer fach o aelodau etholedig, mae'r ffurflen cofrestru buddiannau'n ymwneud â'u Cyngor hwy. Mae hyn yn creu risg efallai nad yw aelodau'n datgan yr holl fuddiannau rhanbarthol perthnasol. Canfuom hefyd nad yw llawer o ddatganiadau gan aelodau o Fyrddau a Phwyllgorau wedi cael eu diweddaru ers 2024. Gallai'r diffyg goruchwyliaeth yma o ran gwneud yn siŵr yr ymlynir wrth ei drefniadau wanhau trefniadau'r Cydbwyllgor Corfforedig i reoli gwrthdaro buddiannau a lleihau tryloywder prosesau penderfynu.

12 Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn adolygu ei strategaethau a'i bolisïau a gweithdrefnau ategol trwy ei raglen o newid mewnol, 'Prosiect Esblygu'. Megis dechrau y mae'r rhaglen ond mae disgwyl iddi asesu'r hyn y mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn ei wneud, sut y mae'n gweithio, a pha un a yw ei bolisïau a'i strategaethau'n dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth a'i gweithdrefnau a pholisïau ategol. Mae cwblhau'r gwaith hwn yn gyflym yn bwysig i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig bod ganddo drefniadau gweithrediadol, llywodraethu, ac adrodd cryf.

Rolau, capasiti ac arbenigedd

13 Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi neilltuo uwch gyfrifoldeb am drefniadau gwrth-dwyll. Y Cyfarwyddwr Adnoddau sy'n darparu arweinyddiaeth strategol, tra bo'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am oruchwyliaeth weithrediadol.

14 Gall y Cydbwyllgor Corfforedig gael cymorth arbenigol mewn perthynas â thwyll trwy ei gytundeb lefel gwasanaeth (SLA) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT). Ni fu unrhyw achosion hysbys o dwyll a oedd yn golygu bod angen y cymorth hwn hyd yma. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn rhoi mynediad i'r Cydbwyllgor Corfforedig at wasanaethau archwilio mewnol a thîm Twyll Corfforaethol. Mae'n datgan yn eglur beth fydd CBSRhCT yn ei ddarparu ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig mewn perthynas â threfniadau, gweithgarwch, ac adroddiadau gwrth-dwyll.

15 Fodd bynnag, mae'r strategaeth a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn anghyson. Mae'r strategaeth yn datgan bod gwaith y tîm Twyll Corfforaethol yn cynnwys asesu'r risg o dwyll ac adrodd ar hynny, tra bo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn dweud na fydd y tîm yn llunio trefniadau twyll y Cydbwyllgor Corfforedig, gan gynnwys asesiadau risg ac adroddiadau. Mae hyn yn creu ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau, gan gynyddu'r risg nad yw gwaith gwrth-dwyll allweddol yn cael ei gwblhau ac nad oes tystiolaeth ohono'n cael ei dangos mewn modd effeithiol.

Rheoli risg a rhaglen waith ar gyfer risg

16 Nid yw trefniadau'r Cydbwyllgor Corfforedig i gydnabod a rheoli risgiau o dwyll wedi datblygu ddigon. Mae ei strategaeth yn datgan y dylai fod ganddo asesiad, cynllun gweithredu, a rhaglen waith ar gyfer y risg o dwyll. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn eu lle. Nid oes ganddo gynllun ymateb i dwyll ychwaith. Byddai'r rhain yn rhoi ffordd strwythuredig i'r Cydbwyllgor Corfforedig adnabod, rheoli, lliniaru ac ymateb i risgiau o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Byddai'r trefniadau hyn hefyd yn atgyfnerthu safbwynt dim goddefgarwch y Cydbwyllgor Corfforedig ynglŷn â thwyll ac yn helpu staff ac aelodau i ddeall ei risgiau o dwyll.

17 Nid yw methodoleg rheoli risg y Cydbwyllgor Corfforedig yn ystyried risgiau o dwyll, llwgrwobrwyo na llygredigaeth ychwaith. Mae cofrestrau risg adrannol yn cynnwys risgiau cyffredinol ond nid ydynt yn atgoffa timau i ystyried risgiau o dwyll yn benodol. O ganlyniad, ni all y Cydbwyllgor Corfforedig ddangos ei fod wedi asesu'n systematig ble y mae fwyaf agored i dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo. Felly, ceir mwy o siawns y gall risgiau o dwyll osgoi sylw ac felly peidio â chael eu rheoli.

18 Mae cynlluniau gwaith blynyddol Archwilio Mewnol yn cynnwys archwiliadau o feysydd lle ceir risg ganfyddedig o dwyll. Mae enghreifftiau'n cynnwys credydwyr, buddsoddiadau, a chardiau prynu. Canfu'r archwiliadau hyn fod gan y Cydbwyllgor Corfforedig reolaethau mewnol rhesymol neu gadarn, gan roi peth sicrwydd i'r Cydbwyllgor Corfforedig. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw rhaglen waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymdrin â'r holl risgiau perthnasol o dwyll ynteu a yw wedi'i thargedu at y meysydd lle ceir y risg fwyaf.

19 Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), ymarfer paru data dros y DU gyfan a gaiff ei rhedeg gan Swyddfa'r Cabinet i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod twyll a gwallau posibl. Mae hyn yn rhoi offeryn canfod pwysig i'r Cydbwyllgor Corfforedig ac fe all ei helpu i adfer ac atal colledion.

Llywodraethu

20 Nid oes gan y Cydbwyllgor Corfforedig nodau na thargedau eglur ar gyfer ei waith gwrth-dwyll. Mae hyn yn golygu nad yw'n gallu:

- asesu a yw ei drefniadau gwrth-dwyll yn effeithiol;
- monitro cynnydd dros amser; na
- dwyn y swyddogion cywir i gyfrif.

Heb dargedau eglur, gall gweithgarwch gwrth-dwyll fod yn anghyson, yn anodd i'w fesur, ac yn llai effeithiol nag y dylai fod.

21 Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl oruchwylio a sicrwydd bwysig yn nhrefniadau gwrth-dwyll y Cydbwyllgor Corfforedig. Mae'n cael gwybodaeth berthnasol, megis y strategaeth atal twyll, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol, y gofrestr risgiau corfforaethol, a pholisi chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cael yr wybodaeth hon mewn gwahanol adroddiadau ac mewn gwahanol gyfarfodydd. Byddai dod â gwaith gwrth-dwyll ynghyd mewn un adroddiad neu grynodeb blynyddol byr yn rhoi golwg fwy eglur i'r Pwyllgor ar weithgarwch gwrth-dwyll yn ystod y flwyddyn ac yn ei helpu i asesu a yw ei drefniadau'n effeithiol.

Argymhellion

A1 Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer staff

1.1 Mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig ddatblygu trefniadau i staff gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll cymesur i atgyfnerthu ei bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â thwyll ac atgoffa staff am eu cyfrifoldebau i helpu i warchod rhag twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth **(paragraff 6)**.

A2 Camau gwirio cyn cyflogi

2.1 Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig adolygu ei drefniadau ar gyfer camau gwirio cyn cyflogi i'w sicrhau ei hun bod ystyriaeth ddigonol a chymesur i atal a chanfod twyll yn ei broses recriwtio ar gyfer rolau a adnabuwyd fel rhai lle mae'r risg o dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo yn fwy **(paragraff 8)**.

A3 Cofrestr buddiannau

3.1 Mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig gryfhau ei drefniadau i wneud yn siŵr bod holl aelodau'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cyflwyno ffurflenni cofrestru buddiannau priodol ac amserol i reoli gwrthdaro buddiannau posibl yn effeithiol **(paragraff 11)**.

A4 Strategaeth Atal Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

4.1 Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig adolygu ei strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth i wneud yn siŵr ei bod yn berthnasol i weithgareddau'r Cydbwyllgor Corfforedig ac i roi sicrwydd iddo bod ganddo drefniadau gweithrediadol, llywodraethu, ac adrodd cryf ar gyfer atal a chanfod twyll **(paragraff 12)**.

A5 Rolau a chyfrifoldebau

5.1 Mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig ddatrys yr anghysonderau yn rolau a chyfrifoldebau'r tîm Twyll Corfforaethol fel a nodir yn ei strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth a'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda CBSRhCT **(paragraff 15)**.

A6 Trefniadau ategol ar gyfer atal twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo

6.1 Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig gryfhau ei drefniadau i wneud yn siŵr bod ganddo ddull cyson i adnabod, lliniaru, ac ymateb i dwyll trwy ddatblygu:

- asesiad o'r risg o dwyll;
- cynllun gweithredu ar gyfer y risg o dwyll;
- rhaglen waith ar gyfer y risg o dwyll; a hefyd
- cynllun ymateb i dwyll **(paragraff 16)**.

6.2 Mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig gryfhau ei drefniadau i wneud yn siŵr bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'i fethodoleg rheoli risg **(paragraff 17)**.

A7 Llywodraethu

Mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig gryfhau ei drefniadau llywodraethu gwrth-dwyll trwy wneud y canlynol:

7.1 pennu nodau a thargedau eglur i ategu ei waith gwrth-dwyll i'w alluogi i fonitro cynnydd a dwyn swyddogion cyfrifol i gyfrif **(paragraff 20)**; a

7.2 darparu diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am weithgarwch atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth i'w helpu i ddeall gwaith y Cydbwyllgor Corfforedig ar atal a chanfod twyll ac i'w helpu i adolygu effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll y Cydbwyllgor Corfforedig **(paragraff 21)**.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau gwrth-dwyll y Cydbwyllgor Corfforedig. Roedd hyn yn cynnwys archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithrediadol.

Digwyddodd y gwaith maes ym mis Gorffennaf a mis Awst 2026.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Roedd y cwestiynau'n cwmpasu meysydd allweddol gan gynnwys:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- fframwaith rheolaeth a rheoli risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithio, a
- llywodraethu.

Meini prawf

Fe wnaethom seilio ein harchwiliad ar safonau cydnabyddedig a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- argymhellion yn yr adroddiad Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020 fel sail ar gyfer trefniadau gwrth-dwyll priodol;
- archwiliadau lleol blaenorol Archwilio Cymru o drefniadau gwrth-dwyll; a
- myfyrio ynghylch yr egwyddorion yn adroddiad Archwilio Cymru ar Drefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, yn enwedig yr elfennau allweddol o ddiwylliant gwrth-dwyll effeithiol.

Dulliau

Fe ddefnyddiom ni ddau ddull i gasglu tystiolaeth:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom archwilio dogfennau'r Cydbwyllgor Corfforedig i'n helpu i ddeall ei drefniadau gwrth-dwyll, ei weithrediadau a'r modd y mae'n cydymffurfio; a hefyd
- cyfweliadau – fe gynhaliom ni gyfweliadau strwythuredig gyda staff ac aelodau sy'n rhan o oruchwylio a rheoli trefniadau gwrth-dwyll.

2 Gwybodaeth gefndir am Gydbwyllgorau Corfforedig

Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru bedwar Cydbwyllgor Corfforedig i helpu i gryfhau cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol. Y pedwar Cydbwyllgor Corfforedig yw Gogledd Cymru; Canolbarth Cymru; De-Orllewin Cymru; a De-Ddwyrain Cymru.

Daeth Cydbwyllgorau Corfforedig i rym ym mis Ebrill 2021 trwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae gan Gydbwyllgorau Corfforedig ddyletswyddau statudol i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol. Mae ganddynt hefyd y pŵer i wella llesiant economaidd rhanbarthol ac mae ganddynt ddyletswyddau statudol.

Rhwng 2021 a 2024, fe bontiodd Cydbwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru o'i statws blaenorol fel Bargen Ddinesig i fod yn gorff cyhoeddus newydd.

Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd Cydbwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru yn ei drydedd flwyddyn fel corff cyhoeddus newydd.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E–bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.